**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/7732/16

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid Cymdeithas Llwyodraeth Leol Cymru

21 Rhagfyr 2016

Annwyl Gyfaill

Rwyf heddiw'n cyhoeddi manylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol 2017-18 ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Atodir Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet er gwybodaeth.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwy'n cynnig pennu bod cyllid refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2017-18 yn £4.114 biliwn. Mae'r cyllid terfynol a gyhoeddwyd heddiw, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad, yn cynrychioli cynnydd o £10 miliwn o'i gymharu â 2016-17. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r cyllid a gyhoeddais ym mis Hydref, yn bennaf yn sgil ychwanegu £6 miliwn o gyllid i atal digartrefedd.

Cafwyd rhai newidiadau i ddyraniadau awdurdodau unigol ers y setliad dros dro. Mae'r newidiadau hyn yn bennaf yn adlewyrchu cynnwys data diweddarach am y sylfaen drethi.

Ystyriais yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro cyn penderfynu ar y setliad terfynol. Nid oedd yr ymatebion yn nodi unrhyw faterion a oedd yn gofyn am newid agwedd yn y setliad terfynol.

Yn unol â'n hymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen*, rwyf wedi cadw'r isafswm cyllid a gyhoeddwyd ym mis Hydref ac wedi darparu £1.6 miliwn o gyllid i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.5% o'i gymharu â'i ddyraniad a'i ychwanegiad cyllid ar gyfer 2016-17.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer 2017-18 yn £433 milliwn. Fel rhan o hyn, mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2017-18 wedi cael ei gydgrynhoi yn un ffrwd gyllido, sy'n parhau ar yr un lefel, sef £143 miliwn.

Ceir manylion llawn am y Setliad ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r manylion rwy'n eu rhyddhau am y grantiau refeniw a chyfalaf i'w darparu i lywodraeth leol, yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i osod eich cyllidebau a lefelau treth cyngor ar gyfer 2017-18.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru'n rhyddhau £10 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol at ddibenion gofal cartref. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ynghylch hyn yn y man. Rwyf hefyd yn cynnwys £10 miliwn ychwanegol yn y gyllideb derfynol i ddarparu rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau ar y stryd fawr.

Hoffwn eich atgoffa ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol sydd i'w gweld yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n berthnasol. Dylid asesu effaith opsiynau'r gyllideb ar gydraddoldeb a dylai'r wybodaeth honno gael ei defnyddio wrth wneud y penderfyniadau terfynol.

Rhaid i chi hefyd ystyried eich dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi eich cynlluniau ar gyfer 2017-18.

Mae'r setliad terfynol hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio'ch cyllidebau ar gyfer 2017-18. Rwy'n eich annog yn gryf i ystyried beth yw'r ffordd orau o drafod gyda'ch cymunedau lleol wrth ffurfio'ch cynnigion a gwneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Byddaf nawr yn symud ymlaen i osod *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1* ar gyfer 2017-18 i'w drafod yn y Cynulliad ar 17 Ionawr 2017.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AM/ AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government